

# Gwaith Duw yn achub

*“Myfi yw’r drws; os daw rhywun i mewn trwof fi, caiff ei gadw’n ddiogel.”  
(adn. 9)*

## Beth am ddarllen Ioan 10:1–18 ac yna myfyrio

Yn ein hastudiaeth ddoe, bu i ni nodi fod un, er ar y ffordd lydan sydd yn arwain i ddistryw, yn medru troi oddi ar y ffordd honno ac adnabod bywyd Iesu Grist. Gallwn ddewis y ffordd gyfyng, y ffordd sydd yn arwain i’r bywyd ac i’r nefoedd. Mae’r gwaith mawr o achub a gyflawnodd Duw yn Iesu Grist wrth ei ddanfôn i’r byd yn ein galluogi i symud o un ffordd i’r llall.

Mae’r syniad y bydd pob drygioni yn cael ei drechu i’r fath raddau fel y bydd yna briodas rhwng nefoedd ac uffern yn nonsens ac yn beryglus iawn. Dyma eiriau C. S. Lewis: “Mae daioni, wrth iddo flodeuo, yn gynyddol yn dod yn fwy gwahanol, nid yn unig i ddrygioni, ond i ddaioni arall. Fe ellir cywiro unrhyw waith mathemateg ond er mwyn gwneud hynny, mae’n rhaid mynd yn eich ôl nes darganfod y camgymeriad ac yna cychwyn o’r fan honno. Ni ellir cywiro wrth gadw i fynd ymlaen.” Mae’r rhai hynny sydd yn credu y gall uffern gael ei buro nes, ryw ddydd, y bydd yn ymbriodi â’r nefoedd, o bryd i’w gilydd yn seilio eu rhesymeg ar eiriau Paul yn Rhufeiniaid 8:28 lle mae’n siarad am bob peth yn cydweithio er daioni. Ond nid cyfeirio at uffern y mae Paul yn y geiriau yma. Mae’n siarad yn hytrach am fywyd ar y ddaear yma. Ymhellach, mae’n disgrifio’r cyfnewidiad o ddrygioni i ddaioni fel cyfnewidiad sydd yn digwydd ym mywyd y rhai sydd yn ei garu ef, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad.

Dim ond gwaith achubol Duw yn Iesu Grist ar y groes sydd yn abl i’n gwared ni rhag uffern. Oherwydd hyn, nid oes neb yn mynd i uffern oherwydd eu bod yn ddrwg yn unig, ac nid oes neb yn mynd i’r nefoedd ychwaith oherwydd eu bod yn dda. Maent yn mynd i’r naill neu’r llall ar sail eu perthynas â’r Arglwydd Iesu Grist.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 11:25; Heb. 10:19–22; 1 Tim. 2:5

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywedodd Iesu wrth Martha?
2. Beth yw ystyr y gair ‘cyfryngwr’?

## Gweddi

O Dad, sut y medraf ddiolch i ti? Rwyf wedi rhoi dy Fab dy hun i selio fy iachawdwriaeth. Ni allaf ddychmygu bellach beth fyddai fy niwedd ar wahân i’m perthynas â Iesu. Nid oes terfynau i’m diolchgarwch. Diolch, Arglwydd Iesu. Amen.